

Tofacitinib i drin arthritis soriatig gweithredol ar ôl ymateb annigonol i gyffuriau gwrth-wyngol sy'n addasu clefydau (DMARDs)

03 Hydref 2018

Mae tofacitinib (Xeljanz), a gymerir ar y cyd â chyffur a elwir yn methotrexate, ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer athritis soriatig gweithredol mewn oedolion o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- os oes ganddynt o leiaf 3 chymal poenus a 3 chymal chwyddedig a'u bod eisoes wedi rhoi cynnig ar o leiaf 2 gyffur gwrth-wyngol sy'n addasu clefydau a roddwyd ar wahân neu gyda'i gilydd, ond nad ydynt wedi gweithio, neu
- os ydynt wedi cael atalydd alffa ffactor necrosis tiwmor (TNF) ond nad yw hyn wedi gweithio'n ddigon da o fewn 12 wythnos neu ar ôl 12 wythnos o driniaeth neu
- lle y byddai atalyddion TNF yn cael eu defnyddio ond na all y person eu defnyddio.

Dim ond pobl y mae eu harthritis soriatig wedi gwella digon erbyn 12 wythnos all barhau â'r driniaeth.

Wrth asesu sut mae cael athritis soriatig yn effeithio ar ansawdd eich bywyd, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried unrhyw anabledau neu anawsterau cyfathrebu a allai fod gennych.

Os nad ydych yn gymwys i gael triniaeth, ond eich bod eisoes yn cymryd tofacitinib, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Y Gymdeithas Soriasis](#), 01604 251 620
- [Psoriasis and Psoriatic Arthritis Alliance](#), 01923 672837

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3112-5